OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 3273 (Cy.323)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Clwy Affricanaidd y Moch (Cymru) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *13 Rhagfyr 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *15 Rhagfyr 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1, 7(1), 8(1), 15(4), 17(1), 23, 25, 28, 35, 38 ac 83(2) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Clwy Affricanaidd y Moch (Cymru) 2003 a daw i rym ar 15 Rhagfyr 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn, os nad yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall —

ystyr "abwyfa" ("*knacker's yard*") yw unrhyw safle a ddefnyddir mewn cysylltiad â lladd, blingo neu dorri anifeiliaid na fwriedir i'w cig gael ei fwyta gan bobl;

ystyr "carcas" ("*carcase*") yw carcas mochyn ac mae'n cynnwys rhan o garcas;

ystyr "y clefyd" ("*the disease*") yw clwy Affricanaidd y moch;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "daliad" ("*holding*") yw unrhyw fan lle y mae unrhyw fochyn yn cael ei fridio neu ei gadw yn barhaol neu dros dro neu wedi cael eu cadw ar unrhyw adeg yn ystod y 56 diwrnod

(**1**) 1981 p.22. *Gweler* adran 86(1) am ddiffiniadau 'the Ministers' a 'the Minister'. Trosglwyddwyd swyddogaethau 'the Ministers', i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau 'the Ministers' i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd yr Alban mewn cysylltiad â Chymru, i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141) ac wedi hynny fe'u trosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

blaenorol, ond nid yw'n cynnwys lladd-dy, abwyfa, cyfrwng cludo nac ardal wedi ei ffensio lle y cedwir moch fferal y gellir eu hela;

ystyr "daliad a amheuir" ("*suspected holding*") yw daliad y mae hysbysiad o dan erthygl 5 wedi cael ei gyflwyno ynglŷn ag ef;

ystyr "daliad heintiedig" ("*infected holding*") yw daliad y mae'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi cadarnhau bod y clefyd yn bresennol yno;

ystyr "fector" ("*vector*") yw torogen o'r rhywogaeth *Ornithodorus erraticus* neu unrhyw dorogen o'r genws *Ornithodorus* sydd, ym marn y Prif Swyddog Milfeddygol, â'r gallu i drosglwyddo clwy Affricanaidd y moch;ystyr "y feirws" ("the virus") yw feirws clwy Affricanaidd y moch;

ystyr "lladd-dy" ("*slaughterhouse*") yw unrhyw adeilad, safle neu le arall (heblaw cyfleuster trafod anifeiliaid hela a ffermir) ar gyfer cigydda anifeiliaid y bwriedir eu cig i'w fwyta gan bobl, ac mae'n cynnwys unrhyw le sydd ar gael mewn cysylltiad ag ef lle cedwir anifeiliaid cyn eu cigydda;

ystyr "mochyn" ("*pig*") yw anifail o dylwyth y *suidae*;

ystyr "mochyn fferal" ("*feral pig*") yw mochyn nas cedwir na bridir ar ddaliad ac nad yw mewn lladd-dy, mewn abwyfa nac ar gyfrwng cludo;

ystyr "y Prif Swyddog Milfeddygol" ("*the Chief Veterinary Officer*") yw Prif Swyddog Milfeddygol Prydain Fawr; ac

ystyr "Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol" ("*Divisional Veterinary Manager*") yw'r person a benodir dros dro gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gael gwybod am anifeiliaid a charcasau sydd wedi eu heintio neu yr amheuir eu bod wedi eu heintio ar gyfer yr ardal lle y mae'r anifeiliaid neu'r carcasau hynny.

(2) At ddibenion y Gorchymyn hwn —

(i) amheuir bod mochyn neu garcas mochyn wedi ei heintio gan y clefyd os oes ganddo arwyddion clinigol neu namau post mortem sy'n cyd-fynd ag effeithiau'r feirws neu os yw canlyniadau prawf diagnostig yn dangos ei bod yn bosib bod y feirws yn bresennol yn yr anifail hwnnw neu'r carcas hwnnw;

(ii) mae mochyn neu garcas mochyn wedi ei heintio gan y clefyd os yw'r Prif Swyddog Milfeddygol yn penderfynu ei fod wedi'i heintio ar sail arwyddion clinigol, neu namau post mortem, neu ganlyniadau prawf diagnostig neu amgylchiadau epidemiolegol.

**Eithriadau**

**3.** Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys pan fo'r feirws yn bresennol mewn amgylchiadau pan fydd trwydded wedi ei rhoi o dan erthygl 4 o Orchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig 1998(**2**).

**Hysbysu am y clefyd**

**4.**—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n amau bod y clefyd yn bresennol mewn unrhyw fochyn neu garcas—

(a) y mae'n berchen arno; neu

(b) sydd yn ei ofal; neu

(c) y mae yn ei archwilio,

hysbysu'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol yn ddiymdroi.

(**2**) O.S. 1998/463.

(2) Rhaid i unrhyw berson sy'n dadansoddi samplau a gymerir o unrhyw anifail neu garcas ac sy'n darganfod tystiolaeth o wrthgorffynnau neu antigenau i'r clefyd neu unrhyw frechiad i'r clefyd hysbysu'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol yn ddiymdroi.

(3) Ni chaiff neb symud yr un mochyn na charcas yr amheuir ei fod wedi ei heintio gan y clefyd, nac unrhyw gig, cynnyrch a wnaed o foch, semen, ofwm nac embryo mochyn, porthiant anifeiliaid, tail (tom) na biswail nac unrhyw offer, deunydd na gwastraff y maent yn debygol o drosglwyddo'r clefyd, o'r daliad nac o le arall lle y ceir hyd iddo, oni bai fod arolygydd milfeddygol wedi ymweld â'r daliad neu'r lle arall hwnnw a bod yr arolygydd hwnnw naill ai wedi gorfodi cyfyngiadau o dan erthygl 5 neu wedi hysbysu'r person hwnnw nad oes angen, yn ei farn ef, gwneud hynny.

### Camau i'w cymryd tra ymchwilir i amheuaeth o'r clefyd

**5.**—(1) Rhaid i arolygydd milfeddygol sy'n amau bod y clefyd yn bresennol ar unrhyw ddaliad, lladd-dy, abwyfa, lle arall neu gyfrwng cludo, neu y gallasai fod wedi bod yn bresennol yno yn y 56 diwrnod blaenorol, os yw hysbysiad wedi ei roi o dan erthygl 4 ai peidio —

(a) cyflwyno hysbysiad —

(i) i feddiannydd y daliad gan orfodi'r cyfyngiadau a'r gofynion a nodwyd ym mharagraffau (2) a (3); neu

(ii) i feddiannydd lladd-dy neu abwyfa neu i'r person sy'n ymddangos ei fod â gofal cyfrwng cludo yn nodi pa rai o'r cyfyngiadau a'r gofynion a nodir ym mharagraffau (2) a (3) isod sy'n ymddangos yn berthnasol i'r arolygydd milfeddygol; a

(b) gwneud archwiliad i gadarnhau bod y clefyd yn bresennol neu'n absennol.

(2) Pan gyflwynir hysbysiad o dan baragraff 1 rhaid i'r meddiannydd —

(a) paratoi, o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol, gofnod yn ôl y categorïau canlynol —

(i) sawl mochyn sydd;

(ii) sawl mochyn sydd, yn ôl eu golwg, heb y clefyd;

(iii) sawl mochyn sydd, yn ôl eu golwg, â'r clefyd arnynt;

(iv) sawl mochyn sydd wedi marw yn ystod y 56 diwrnod cyn dyddiad yr hysbysiad;

(b) sicrhau bod y cofnod yn cael ei ddiweddaru i gynnwys y moch sy'n cael eu geni a'r rhai sy'n marw yn ystod y cyfnod pan fo'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y paragraff hwn a pharagraff (3) mewn grym a chofnodi sawl mochyn sy'n mynd yn sâl a fu gynt, yn ôl eu golwg, heb y clefyd;

(c) dangos y cofnod i arolygydd ar ei gais;

(ch) sicrhau bod pob mochyn ar y safle yn cael ei gadw yn ei dwlc neu yn rhyw le arall a bennir yn yr hysbysiad;

(d) sicrhau, yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan arolygydd milfeddygol, bod dulliau priodol o ddiheintio yn cael eu rhoi wrth fynedfeydd ac allanfeydd y rhannau hynny o'r safle lle cedwir y moch a'r safle ei hunan.

(3) Pan fydd hysbysiad wedi'i gyflwyno o dan baragraff (1), ni chaiff neb —

(a) symud unrhyw fochyn i'r safle neu oddi yno os na wneir hynny yn unol â thrwydded a roddwyd gan arolygydd milfeddygol a rhaid i'r meddiannydd sicrhau nad yw'r moch yn gallu crwydro o'r tir a'r adeiladau nac i mewn iddynt;

(b) symud unrhyw gig, carcas mochyn, cynnyrch a wnaed o foch, semen, ofwm nac embryo mochyn, nac unrhyw borthiant anifeiliaid, offer, deunydd na gwastraff nac unrhyw beth arall y maent yn debygol o drosglwyddo'r clefyd o'r safle, heblaw os yw hynny'n cael ei wneud yn unol â thrwydded a roddwyd gan arolygydd;

(c) dod i mewn i'r safle nac ohono os nad yw'n gwneud hynny yn unol â thrwydded a roddwyd gan arolygydd milfeddygol;

(ch) symud unrhyw gerbyd i mewn i'r safle nac oddi yno os nad yw'n cael ei wneud yn unol â thrwydded a roddwyd gan arolygydd milfeddygol.

(4) Pan fydd gan arolygydd milfeddygol seiliau dros amau presenoldeb fectorau ar safle penodol yn sgil ei leoliad, ei sefyllfa ddaearyddol neu ei gysylltiadau â safle lle y gwyddir neu yr amheuir bod y clefyd yn bodoli (yng Nghymru neu rywle arall) caiff yr arolygydd milfeddygol hwnnw, neu arolygydd yn gweithio o dan ei gyfarwyddiadau, gyflwyno hysbysiad i feddiannydd y safle penodol, ac o wneud hynny, caiff arolygydd milfeddygol, arolygydd neu swyddog arall y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Ysgrifennydd Gwladol fynd ar y safle penodol.

### Camau pellach i'w cymryd os yw hysbysiad wedi ei gyflwyno o dan erthygl 5

**6.** Os yw hysbysiad wedi ei gyflwyno o dan erthygl 5, caiff arolygydd milfeddygol, drwy gyflwyno hysbysiad pellach i feddiannydd y daliad, lladd-dy, abwyfa neu unrhyw le arall neu i'r person y mae'n ymddangos iddo sydd â gofal y cyfrwng cludo —

(a) gwahardd symud unrhyw rywogaeth arall o anifail i mewn i'r safle neu oddi yno;

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r meddiannydd gymryd pob cam rhesymol i ddifa cnofilod a phryfed ar y safle;

(c) ei gwneud yn ofynnol i'r meddiannydd neu'r person sy'n ymddangos ei fod â gofal y cyfrwng cludo lanhau a diheintio'r safle neu'r cyfrwng cludo a hynny ar ei draul ei hun neu ar draul yr Ysgrifennydd Gwladol mewn unrhyw fodd a bennir yn yr hysbysiad, ac o fewn unrhyw amser a bennir felly; ac

(ch) yn achos cyfrwng cludo, ei gwneud yn ofynnol ei fod—

  (i) yn cael ei ddwyn i'r gyrchfan a bennir yn yr hysbysiad;

  (ii) yn cael ei ddadlwytho, ei lanhau a'i ddiheintio ac, os oes angen, defnyddio gwiddonladdwr arno, fel a bennir yn yr hysbysiad; a

  (iii) os pennir hynny, yn cael ei ddadlwytho, ei lanhau a'i ddiheintio a defnyddio gwiddonladdwr arno o dan oruchwyliaeth arolygydd milfeddygol.

### Camau i'w cymryd os cadarnheir bod y clefyd yn bresennol ar ddaliad

**7.**—(1) Os yw'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi cadarnhau bod y clefyd yn bresennol ar ddaliad, rhaid i arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad o dan yr erthygl hon i feddiannydd y daliad hwnnw yn ei gwneud yn ofynnol iddo sicrhau y cydymffurfir â'r cyfyngiadau a'r gofynion a geir yn erthygl 5 onid oes hysbysiad o'r fath o dan erthygl 5 wedi ei gyflwyno eisoes ac yn yr achos hwnnw fe fydd y cyfyngiadau a'r gofynion a gynhwysir ynddo yn parhau mewn grym hyd nes y byddant yn cael eu hamrywio neu eu disodli gan arolygydd milfeddygol.

(2) Pan geir cadarnhad o'r fath caiff arolygydd milfeddygol ei gwneud yn ofynnol, drwy hysbysiad, fod y camau hynny a nodir yn erthygl 6 yn cael ei roi ar waith hefyd neu fel y gwêl orau.

### Camau i'w cymryd os cadarnheir bod y clefyd yn bresennol mewn lladd-dy, abwyfa neu ar gyfrwng cludo

**8.** Os yw'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi cadarnhau bod y clefyd yn bresennol mewn lladd-dy, mewn abwyfa neu ar gyfrwng cludo, caiff arolygydd gyflwyno hysbysiad i feddiannydd y lladd-dy, yr abwyfa neu i'r person y mae'r cyfrwng cludo yn ei ofal, yn ei gwneud yn ofynnol iddo sicrhau—

(a) yn achos lladd-dy neu abwyfa, bod pob adeilad, cyfarpar a cherbyd a bennir yn yr hysbysiad yn cael ei lanhau a'i ddiheintio ac, os oes angen, defnyddio gwiddonladdwr arno, yn unol â chyfarwyddiadau, ac o dan oruchwyliaeth arolygydd milfeddygol;

(b) yn achos cyfrwng cludo, ei fod yn cael ei gymryd i gyrchfan, ei ddadlwytho, ei lanhau a'i ddiheintio ac, os oes angen, defnyddio gwiddonladdwr arno, yn unol â chyfarwyddiadau, ac o dan oruchwyliaeth arolygydd milfeddygol;

(c) na ddeuir â'r un mochyn i mewn i'r lladd-dy, yr abwyfa na'r cyfrwng cludo nes bydd o leiaf 24 awr wedi mynd heibio ers cwblhau'r gwaith glanhau a diheintio ac, os gwnaed hynny, defnyddio gwiddonladdwr arno, yn unol ag is-baragraffau (a) a (b) uchod.

### Camau i'w cymryd o ran daliadau y mae'n bosib y cafodd y clefyd ei drosglwyddo iddynt neu ohonynt

**9.**—(1) Os, yn sgil ymchwiliad i epidemioleg y clefyd ar ddaliad, y mae arolygydd milfeddygol o'r farn bod y clefyd sydd ar ddaliad sydd wedi ei heintio neu ddaliad a amheuir efallai wedi cael ei drosglwyddo i safle arall, neu ohono, caiff gyflwyno hysbysiad o dan erthygl 5 i feddiannydd y safle arall hwnnw.

(2) Os yw'r clefyd wedi ei ganfod ar anifeiliaid mewn lladd-dy, mewn abwyfa neu ar gyfrwng cludo, caiff arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad o dan erthygl 5 i feddiannydd unrhyw safle y mae'r anifeiliaid neu garcasau heintiedig sydd yn y lladd-dy hwnnw, yr abwyfa honno neu'r cyfrwng cludo hwnnw wedi dod ohono yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o fewn y 56 diwrnod blaenorol neu, yn achos cyfrwng cludo, unrhyw safle y mae'r cyfwng cludo hwnnw wedi teithio iddo ers hynny.

### Parth Rheoli Dros Dro

**10.**—(1) Yn sgil cyflwyno hysbysiad o dan erthygl 5, caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy Orchymyn datganiadol, sefydlu parth a elwir "parth rheoli dros dro".

(2) Pan fydd parth rheoli dros dro wedi cael ei sefydlu yn Lloegr sy'n cyffwrdd â ffin Cymru caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel y barna'n angenrheidiol, sefydlu parth rheoli dros dro cysylltiedig yng Nghymru.

(3) Rhaid i'r parth rheoli dros dro fod wedi ei leoli a bod o'r fath faint ag sydd ei angen, ym marn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn atal y clefyd rhag lledaenu.

(4) Os yw parth rheoli dros dro wedi ei sefydlu, ni chaiff neb —

(a) symud yr un mochyn o unrhyw ddaliad, lladd-dy neu abwyfa yn y parth ac eithrio yn unol â thrwydded a ddyroddir gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu'n unol â chyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol;

(b) symud unrhyw wartheg, defaid, geifr nac anifail cnoi cil arall o unrhyw ddaliad, lladd-dy neu abwyfa yn y parth y mae moch ynddi ac eithrio yn unol â thrwydded a ddyroddir gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu'n unol â chyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol; nac

(c) symud yr un mochyn allan o'r parth.

(5) Ni fydd y cyfyngiad ym mharagraff (4)(c) yn gymwys i foch sydd wedi eu llwytho ar gerbyd y tu allan i'r parth a'u cludo drwyddo heb i'r cerbyd gael ei lwytho na'i ddadlwytho.

(6) Ystyrir bod unrhyw ddaliad, lladd-dy neu abwyfa sy'n rhannol y tu mewn ac yn rhannol y tu allan i barth rheoli dros dro yn gyfan gwbl y tu mewn i'r parth hwnnw.

### Parthau diogelu a goruchwylio

**11.**—(1) Pan gadarnheir gan y Prif Swyddog Milfeddygol fod y clefyd yn bresennol, rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy orchymyn datganiadol, sefydlu ardal heintiedig ag iddi barth a elwir yn "barth diogelu" a pharth a elwir yn "barth goruchwylio".

(2) Mae'r parth diogelu i gwmpasu ardal sydd o leiaf tri chilometr ei radiws mewn parth goruchwylio sy'n cwmpasu ardal sydd o leiaf deg cilometr ei radiws, a'r daliad, y lladd-dy neu'r abwyfa y cadarnhawyd bod y clefyd yn bresennol yno fydd canolbwynt y ddau barth.

(3) Mae Rhan I o Atodlen 1 yn gymwys i barth diogelu a Rhan II o Atodlen 1 yn gymwys i barth goruchwylio.

(4) Os cadarnheir bod y clefyd yn bresennol ar ddaliad, lladd-dy neu abwyfa yn Lloegr sydd o fewn 10 cilometr i'r ffin â Chymru, rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy Orchymyn datganiadol, sefydlu ardal heintiedig yng Nghymru fel y bydd parth diogelu sydd o leiaf tri chilometr ei radiws wedi ei gynnwys mewn parth goruchwylio sydd o leiaf 10 cilometr ei radiws, a'r daliad yn Lloegr y cadarnhawyd bod y clefyd yn bresennol ynddo fydd canolbwynt y ddau.

(5) Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru gymryd unrhyw gamau sydd, yn ei farn, eu hangen i sicrhau bod pob person mewn ardal heintiedig yn llwyr ymwybodol o'r cyfyngiadau sydd mewn grym, gan gynnwys drwy roi hysbysiadau neu arwyddion ar eiddo sydd o fewn yr ardal heintiedig.

(6) Rhaid i unrhyw ddaliad, lladd-dy neu abwyfa sydd yn rhannol y tu mewn i barth goruchwylio neu barth diogelu ac yn rhannol y tu allan gael ei drin fel petai i gyd o fewn y parth hwnnw.

### Glanhau a diheintio

**12.**—(1) Wrth ddiheintio o dan y Gorchymyn hwn, rhaid defnyddio diheintydd sydd wedi ei gymeradwyo at y diben hwnnw o dan Orchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) 1978(**3**).

(2) Rhaid i widdonladdwyr a ddefnyddir at ddibenion y Gorchymyn hwn fod wedi'u cofrestru o dan Reoliadau Rheoli Plaladdwyr 1986(**4**) neu wedi'u hawdurdodi o dan Reoliadau Cynhyrchion Bywleiddiaidd 2002(**5**).

(3) Rhaid i weithrediadau glanhau a diheintio ac, os yw'n bridol, defnyddio gwiddonladdwr ar safle gael eu gwneud o dan oruchwyliaeth arolygydd milfeddygol neu arolygydd yn unol â chyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol.

### Parth ymchwilio moch fferal

**13.**—(1) Os oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru reswm i gredu bod y clefyd yn bresennol ymhlith moch fferal yng Nghymru neu os oes parth archwilio moch fferal wedi cael ei sefydlu yn Lloegr sy'n cyffwrdd â ffin Cymru, rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy Orchymyn datganiadol, sefydlu parth ymchwilio moch fferal yng Nghymru y mae darpariaethau paragraff (3) yn gymwys iddo.

(2) Rhaid i'r parth ymchwilio moch fferal gwmpasu'r ardal sydd, ym marn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ei hangen er mwyn ei alluogi i wneud archwiliad i gadarnhau bod y clefyd yn bresennol neu'n absennol.

(3) Rhaid i unrhyw berson sy'n saethu moch fferal neu sy'n cael hyd i garcas moch fferal mewn ardal ymchwilio moch fferal roi gwybod i'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol. Os yw'r person wedi saethu'r mochyn, rhaid iddo gadw'r carcas am 24 awr a sicrhau ei fod ar gael i'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol ar gyfer unrhyw samplu neu brofion sydd, ym marn y Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol, yn briodol.

(**3**) O.S. 1978/32 fel y'i diwygiwyd.
(**4**) O.S. 1986/1510, fel y'i diwygiwyd.
(**5**) O.S. 2001/880, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

### Camau i'w cymryd os cadarnheir bod y clefyd yn bresennol mewn mochyn fferal

**14.**—(1) Os cadarnheir bod y clefyd yn bresennol mewn mochyn fferal yng Nghymru, neu os datgenir ardal heintiedig yn Lloegr sy'n cyffwrdd â ffin Cymru, rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy orchymyn datganiadol sefydlu ardal heintiedig a'i maint yn ddigon i gwmpasu'r ardal yr amheuir bod y clefyd yn bresennol ynddi.

(2) Caiff y gorchymyn datganiadol ym mharagraff (1) osod unrhyw rai o gyfyngiadau a gofynion Atodiad 2, neu'r cyfan ohonynt, yn yr ardal heintiedig a chaiff hefyd atal hela a gwahardd bwydo moch fferal yn yr ardal honno.

(3) Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru gymryd unrhyw gamau sydd, yn ei farn, eu hangen i sicrhau bod yr holl bersonau mewn ardal heintiedig yn llwyr ymwybodol o'r cyfyngiadau a'r gofynion sydd mewn grym mewn ardal heintiedig, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i feddiannwyr eiddo sydd o fewn yr ardal honno ddangos hysbysiadau neu arwyddion.

(4) Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy orchymyn datganiadol, osod gwaharddiad ar sefydlu daliadau newydd o fewn ardal heintiedig.

(5) Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy orchymyn datganiadol, osod gwaharddiad ar fridio moch o fewn ardal heintiedig, ac eithrio yn unol â thrwydded a roddwyd gan arolygydd milfeddygol.

(6) Bernir bod unrhyw ddaliad sydd yn rhannol y tu mewn i ardal heintiedig ac yn rhannol y tu allan i gyd o fewn y parth hwnnw.

### Brechu

**15.** Ni chaiff neb roi brechlyn at glwy Affricanaidd y moch i unrhyw fochyn.

### Cydymffurfio

**16.**—(1) Rhaid i unrhyw hysbysiad neu drwydded o dan y Gorchymyn hwn fod yn ysgrifenedig, a chaiff fod yn gyffredinol neu'n benodol, caiff fod yn ddarostyngedig i amodau a gellir ei ddiwygio, ei atal neu ei ddirymu yn ysgrifenedig ar unrhyw adeg ac yn benodol gellir ei atal neu ei ddirymu os yw'r awdurdod dyroddi o'r farn resymol na chydymffurfir â darpariaethau'r Gorchymyn hwn.

(2) Os bydd unrhyw berson yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn y Gorchymyn hwn neu ag unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd, neu ag unrhyw hysbysiad neu drwydded a gyflwynwyd o'i herwydd, caiff arolygydd, heb ymrwymiad i unrhyw achos sy'n ymwneud â thramgwydd a fo'n codi o ganlyniad i'r methiant hwnnw, gymryd unrhyw gamau sydd eu hangen i sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion, y cyfarwyddyd, yr hysbysiad neu'r drwydded neu i sicrhau iddynt gael eu rhoi ar waith.

(3) Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r awdurdod lleol adfer unrhyw dreuliau sy'n deillio o waith arolygydd o dan baragraff (2) fel dyled sifil oddi wrth y person sydd mewn diffyg talu.

### Pwerau Arolygwyr ac Arolygwyr Milfeddygol

**17.** Caiff arolygydd milfeddygol sy'n mynd ar safle o dan y Gorchymyn hwn —

(a) archwilio unrhyw anifail, garcas neu beth;

(b) gwneud unrhyw brofion a chymeryd unrhyw samplau (gan gynnwys samplau gwaed) o unrhyw anifail, carcas neu beth y mae'n ystyried yn angenrheidiol at ddibenion dadansoddi;

(c) marcio unrhyw anifail, carcas neu beth at ddibenion adnabod;

(ch) cadw golwg am bresenoldeb fectorau;

(d) gweithredu i reoli fectorau mewn unrhyw fodd y mae'n ystyried sy'n angenrheidiol;

(dd) ei gwneud yn ofynnol difa, claddu, gwaredu neu drin unrhyw beth;

(e) ei gwneud yn ofynnol i'r meddiannydd, unrhyw filfeddyg sydd wedi mynd i weld unrhyw anifail ar y safle ac unrhyw berson sydd wedi bod â gofal neu mewn cysylltiad ag unrhyw anifail o'r fath i'w hysbysu o unrhyw anifail neu safle arall y gallai'r anifail hwnnw fod wedi dod i gysylltiad a hwy;

(f) ei gwneud yn ofynnol i feddiannydd unrhyw safle ddangos yr hysbysiadau neu'r arwyddion y cyfeirir atynt yn erthygl 11(5).

(2) Caiff arolygydd neu unrhyw swyddog y Cynulliad Cenedlaethol sy'n mynd i'r safle—

(a) mynd gydag ef neu hi —

(i) cerbyd (ar yr amod bod mynediad i gerbyd o'r fath yn rhesymol ymarferol);

(ii) y cyfarpar hwnnw y mae'n barnu ei fod yn angenrheidiol; a

(iii) unrhyw berson arall y mae'n barnu eu bod yn angenrheidiol at unrhyw ddiben mewn perthynas â gweithredu a gorfodi'r Gorchymyn hwn.

(b) ymgymryd â chadw golwg am bresenoldeb fectorau o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol; ac

(c) gweithredu unrhyw fesurau rheoli fectorau y mae arolygydd milfeddygol yn eu hystyried yn angenrheidiol.

**Gorfodi**

**18.**—(1) Heblaw lle y darperir fel arall, yr awdurdod lleol fydd yn gweithredu a gorfodi darpariaethau'r Gorchymyn hwn.

(2) Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo, o ran achosion o ddisgrifiad arbennig neu unrhyw achos penodol, fod y ddyletswydd orfodi a osodir ar awdurdod lleol o dan yr erthygl hon i'w chyflawni gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol ac nid gan awdurdod lleol.

**Dirymu**

**19.** Dirymir drwy hyn i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru Orchymyn Clwy Affricanaidd y Moch 1980(**6**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*D. Elis-Thomas*
10 Rhagfyr 2003 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**6**) O.S. 1980/145.

Llofnodwyd

Adran yr Amgylchedd,
Bwyd a Materion Gwledig
13 Rhagfyr 2003

*Ben Bradshaw*
Yr Is-Ysgrifennydd Seneddol

ATODLEN 1 Erthygl 11(3)

CAMAU SY'N GYMWYS MEWN PARTHAU DIOGELU A GORUCHWYLIO

# RHAN I

## Camau sy'n gymwys mewn parth diogelu

**Cyfyngu ar symud**

**1.** Yn ddarostyngedig i baragraff 2 isod, ni chaiff neb symud na chludo'r un mochyn ar unrhyw ffordd gyhoeddus na phreifat (heblaw, os bydd angen, y ffyrdd gwasanaethu o fewn y daliad) o fewn y parth diogelu.

**2.** Nid yw'r gwaharddiad ym mharagraff 1 yn gymwys—

(a) os yw'r symud yn cael ei wneud yn unol â pharagraffau 6 a 7;

(b) i gludo moch a gafodd eu llwytho ar gerbyd y tu allan i'r parth diogelu ac yn cael eu cludo drwy'r parth hwnnw heb i'r cerbyd gael ei lwytho na'i ddadlwytho yn y parth hwnnw;

(c) i symud na chludo moch o'r tu allan i'r parth diogelu gyda'r bwriad o'u cigydda ar unwaith mewn lladd-dy sydd o fewn y parth diogelu, ar yr amod bod y symud neu'r cludo wedi cael ei drwyddedu gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd yn unol â chyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol.

**3.** Ni chaiff neb symud unrhyw gerbyd allan o'r parth diogelu os yw'r cerbyd wedi cael ei ddefnyddio i gludo moch o fewn y parth, os nad —

(a) yw wedi cael ei lanhau a'i ddiheintio ac, os oes angen, os yw gwiddonladdwr wedi ei ddefnyddio, o dan gyfarwyddyd a goruchwyliaeth arolygydd; a

(b) yw'r symud wedi ei drwyddedi gan arolygydd; neu

(c) yw wedi cael ei yrru drwy'r parth heb ei lwytho neu ei ddadlwytho.

**4.** Rhaid i feddiannydd daliad o fewn y parth diogelu sicrhau nad yw'r un rhywogaeth arall o anifail domestig yn mynd i mewn i'r daliad na'i adael os nad awdurdodwyd y symud drwy drwydded a gyhoeddwyd gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu yn unol â chyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol.

**5.** Ni chaiff neb fynd ag unrhyw semen, ofwm nac embryo moch o ddaliad sydd o fewn y parth diogelu.

**6.** Ni chaiff neb symud yr un mochyn yn y parth diogelu o'r daliad lle y cedwir ef am o leiaf 40 diwrnod ar ôl y cwblheir gwaith cychwynnol glanhau a diheintio ac unrhyw ddefnydd o widdonladdwr ar y daliad heintiedig. Ar ôl hynny ni chaiff neb symud yr un mochyn heb drwydded i wneud hynny a roddwyd gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd yn gweithredu yn unol â chyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

**7.** Os —

(a) yw daliad wedi bod mewn parth diogelu am hwy na 40 diwrnod oherwydd y bu achosion ychwanegol o'r clefyd yn y parth; a

(b) bod hyn wedi peri problemau ynglŷn â lles neu broblemau eraill o ran cadw'r moch ar y daliad,

ceir symud mochyn oddi ar y daliad ar yr amod bod unrhyw symud o'r fath yn cael ei awdurdodi drwy drwydded a roddwyd gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd yn gweithredu yn unol â chyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol.

### Lleihau cyfnodau aros

**8.** Os yw'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi ei fodloni yn dilyn rhaglen samplo a phrofi, nad yw'r clefyd bellach yn bodoli ar y daliad dan sylw, ceir lleihau drwy hysbysiad y cyfnod o 40 diwrnod y cyfeirir ato ym mharagraffau 6 a 7 uchod i 30 diwrnod.

### Hysbysu ynghylch moch yn marw ar ddaliad

**9.** Rhaid i feddiannydd unrhyw ddaliad o fewn y parth diogelu roi gwybod i'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol am unrhyw fochyn marw neu heintiedig sydd ar ei ddaliad.

### Bioddiogelwch

**10.** Rhaid i berson y mae unrhyw gerbyd neu gyfarpar o dan ei ofal, os defnyddiwyd y cerbyd neu'r cyfarpar i gludo moch, da byw arall neu ddeunydd y gellid bod wedi ei heintio gan y clefyd (er enghraifft carcasau, porthiant, gwrtaith a biswail) sicrhau iddo gael ei lanhau a'i ddiheintio neu ei drin fel arall o dan gyfarwyddyd a goruchwyliaeth arolygydd milfeddygol neu arolygydd yn gweithredu yn unol â chyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol cyn gynted ag y bo modd ar ôl iddo gael ei ddefnyddio a chyn iddo gael ei ddefnyddio unwaith eto.

**11.** Ni chaiff neb fynd i mewn na gadael yr un daliad o fewn y parth diogelu yn gwisgo dillad neu esgidiau ac arnynt arwyddion gweledol eu bod wedi eu halogi â llaid, biswail, carthion na thail anifeiliaid nac unrhyw ddeunydd tebyg heblaw bod person o'r fath yn cael glanhau a diheintio ochrau allanol ei esgidiau wrth fynd i mewn neu adael y safle hwnnw.

# RHAN II

## Camau sy'n gymwys mewn Parth Goruchwylio

### Cyfyngu ar symud

**1.** Yn ddarostyngedig i baragraff 2, ni chaiff neb symud na chludo yr un mochyn ar unrhyw ffordd gyhoeddus na phreifat (heblaw, os bydd angen, y ffyrdd gwasanaethu o fewn y daliad) o fewn y parth goruchwylio os nad yw wedi cael trwydded i wneud hynny gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd yn unol â chyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

**2.** Ni fydd y gwaharddiadau ym mharagraff 1 yn gymwys —

(a) i gludo moch a lwythwyd i mewn i gerbyd y tu allan i'r parth goruchwylio ac sy'n cael eu cludo drwy'r parth hwnnw heb i'r cerbyd gael ei lwytho na'i ddadlwytho yn y parth; na

(b) i symud neu gludo moch o'r tu allan i'r parth goruchwylio gyda'r bwriad o'u cigydda ar unwaith mewn lladd-dy sydd o fewn y parth goruchwylio, ar yr amod bod y symud neu'r cludo wedi cael ei drwyddedu gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd yn unol â chyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol.

**3.** Ni chaiff neb symud yr un cerbyd a ddefnyddir i gludo da byw o'r parth goruchwylio os yw wedi ei ddefnyddio i gludo moch, os nad yw yn gyntaf wedi cael ei lanhau a'i ddiheintio, ac os oes angen, â gwiddonladdwr wedi ei ddefnyddio arno, neu os na chafodd ei yrru drwy'r parth heb ei lwytho na'i ddadlwytho.

**4.** Rhaid i feddiannydd unrhyw ddaliad o fewn y parth goruchwylio sicrhau nad yw'r un rhywogaeth arall o anifail domestig yn mynd i mewn i'r daliad na'i adael o fewn y saith niwrnod ers sefydlu'r parth hwnnw os nad oes ganddi awdurdod i wneud hynny drwy drwydded gan arolygydd.

**5.** Ni chaiff neb fynd ag unrhyw semen, ofwm nac embryo moch o ddaliad sydd o fewn y parth goruchwylio.

### Symud moch

**6.** Ni chaiff neb symud yr un mochyn o ddaliad sydd yn y parth goruchwylio am o leiaf 30 diwrnod ar ôl i waith cychwynnol glanhau a diheintio'r daliad heintiedig ac unrhyw ddefnydd o widdonladdwr gael ei gwblhau. Ar ôl hynny ni chaiff neb symud yr un mochyn os nad oes ganddo drwydded i hynny gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd arolygydd.

**7.** Os yw daliad —

(a) wedi bod o fewn parth goruchwylio am fwy na 40 diwrnod oherwydd bod achosion ychwanegol o'r clefyd; a

(b) bod hynny yn peri problemau o ran lles neu broblemau eraill o ran cadw'r moch ar y daliad,

ceir symud moch o'r daliad hwnnw ar yr amod bod y symud wedi ei drwyddedi gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu yn unol â chyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

### Lleihau cyfnodau aros

**8.** Os yw'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi ei fodloni yn dilyn rhaglen samplo a phrofi, nad yw'r clefyd bellach yn bodoli ar y daliad dan sylw, ceir lleihau drwy hysbysiad y cyfnod o 30 diwrnod y cyfeirir ato ym mharagraff 6 uchod i 21 diwrnod a'r cyfnod o 40 diwrnod y cyfeirir ato ym mharagraff 7 uchod i 30 diwrnod.

### Bioddiogelwch

**9.** Rhaid i berson y mae unrhyw gerbyd neu gyfarpar o dan ei ofal, os defnyddiwyd y cerbyd neu'r cyfarpar i gludo moch, da byw arall neu ddeunydd y gellid bod wedi ei heintio gan y feirws (er enghraifft carcasau, porthiant, gwrtaith a biswail) sicrhau iddo gael ei lanhau a'i ddiheintio neu ei drin fel arall cyn gynted ag y bo modd ar ôl iddo gael ei ddefnyddio a chyn iddo gael ei ddefnyddio unwaith eto yn unol â chyfarwyddyd arolygydd milfeddygol neu arolygydd neu berson arall a benodir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gweithredu yn unol â chyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

**10.** Ni chaiff neb fynd i mewn na gadael yr un daliad o fewn y parth goruchwylio yn gwisgo dillad neu esgidiau ac arnynt arwyddion gweledol eu bod wedi eu halogi â llaid, biswail, carthion na thail anifeiliaid nac unrhyw ddeunydd tebyg heblaw bod person yn cael glanhau a diheintio ochrau allanol ei esgidiau wrth fynd i mewn neu adael y safle hwnnw.

### Hysbysu ynghylch moch yn marw ar ddaliad

**11.** Rhaid i feddiannydd unrhyw ddaliad o fewn y parth goruchwylio roi gwybod i'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol am unrhyw fochyn marw neu heintiedig sydd ar y daliad.

ATODLEN 2

Erthygl 14

CAMAU SY'N GYMWYS MEWN ARDAL HEINTIEDIG A SEFYDLIR O DAN ERTHYGL 14

# RHAN I

## Camau sy'n gymwys i ddaliadau yn yr ardal heintiedig

**Cofnodion am foch**

**1.** Rhaid i feddiannydd daliad o fewn yr ardal heintiedig baratoi, o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol, cofnod yn ôl y categorïau o foch a gedwir ar y daliad a rhaid iddo sicrhau bod y cofnod yn cael ei ddiweddaru a'i ddangos i arolygydd ar ei gais. Yn achos daliadau lle na chedwir moch y tu mewn, ceir gwneud y cofnod drwy amcangyfrif.

**Ynysu moch**

**2.** Rhaid i'r meddiannydd sicrhau —

(a) bod pob mochyn ar y daliad yn cael eu cyfyngu i'r man lle y cedwir hwy neu i fan arall ar y daliad lle y gellid eu cadw ar wahân i foch fferal; a

(b) bod moch fferal yn cael eu rhwystro rhag mynd at unrhyw ddeunydd y gallai'r moch ar y daliad fynd ato.

**Symud moch**

**3.** Ni chaiff neb symud mochyn i mewn i'r daliad nac ohono os nad oes trwydded wedi ei rhoi i wneud hynny gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu yn unol â chyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol.

**Bioddiogelwch**

**4.** Rhaid i'r meddiannydd sicrhau bod dull priodol o ddiheintio yn cael ei ddarparu a'i ddefnyddio wrth y mynedfeydd a'r allanfeydd yn y mannau hynny o'r daliad y cedwir moch ynddynt ac wrth fynedfeydd ac allanfeydd y daliad ei hunan.

**Moch marw neu glaf**

**5.** Rhaid i'r meddiannydd sicrhau ei fod yn rhoi gwybod i'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol am unrhyw foch fferal sy'n marw ar y daliad a rhaid iddo gadw carcasau'r moch hynny ar y daliad nes bydd arolygydd milfeddygol wedi rhoi gwybod iddo nad oes angen gwneud hynny rhagor.

**Moch fferal**

**6.** Ni chaiff neb ddod —

(a) â charcas nac unrhyw ran o fochyn fferal; na

(b) ag unrhyw ddeunydd na chyfarpar y gallai moch fferal yn yr ardal heintiedig fod wedi mynd atynt, i mewn i ddaliad yn yr ardal heintiedig.

# RHAN II

## Camau sy'n gymwys yn yr ardal heintiedig

**Allforio moch, semen, ofa neu embryonau o'r ardal heintiedig**

**7.** Ni chaiff neb symud yr un mochyn nac unrhyw semen, ofwm nac embryo o'r ardal heintiedig at ddibenion eu hallforio i Aelod-wladwriaeth arall.

**Cysylltiad â moch fferal**

**8.** Rhaid i unrhyw berson sy'n dod i gysylltiad â mochyn fferal yn yr ardal heintiedig cymryd camau i sicrhau nad yw'n lledaenu'r clefyd.

**9.** Rhaid i unrhyw berson sy'n saethu mochyn fferal neu'n cael hyd i garcas mochyn fferal roi gwybod i'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol. Os y person hwnnw a saethodd y mochyn, rhaid iddo gadw'r carcas am 24 awr ar ôl rhoi gwybod i'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol a sicrhau ei fod ar gael i'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol fel y gallai wneud unrhyw samplu neu brofion sydd, ym marn y Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol, yn briodol.

---

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys i Gymru, yn rhoi Cyfarwyddeb y Cyngor 2002/60/EC (OJ Rhif L192, 20.07.2002, t.27) ar waith a honno'n adolygu camau'r Gymuned i reoli clwy affricanaidd y moch. Mae'n dirymu a disodli Gorchymyn Clwy Affricanaidd y Moch 1980 i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru.

Mae'r Gorchymyn hwn —

(a) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n amau bod mochyn neu garcas wedi ei heintio â chlwy Affricanaidd y moch (y clefyd) roi gwybod i'r rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol ac yn gosod cyfyngiadau ar symud moch neu garcasau neu bethau eraill (erthygl 4);

(b) yn ei gwneud yn ofynnol i arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad sy'n gorfodi cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn yr hysbysiad mewn amgylchiadau lle y mae'n amau bod y clefyd efallai yn bresennol (erthygl 5);

(c) yn caniatáu i arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad pellach sy'n gosod cyfyngiadau ychwanegol i'r rhai sy'n ofynnol gan erthygl 5 (erthygl 6);

(ch) os cadarnheir bod y clefyd yn bresennol ar ddaliad, yn ei gwneud yn ofynnol i arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad i feddiannydd y daliad yn ei gwneud yn ofynnol iddo sicrhau y cydymffurfir â'r cyfyngiadau a'r gofynion yn erthygl 5 ac unrhyw ofynion yn erthygl 6 sy'n gymwys (erthygl 7);

(d) yn nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd os cadarnheir bod y clefyd yn bresennol mewn lladd-dy, mewn abwyfa neu ar gyfrwng cludo (erthygl 8);

(dd) yn nodi'r camau y dylid eu cymryd pan amheuir bod y clefyd wedi cael ei drosglwyddo i'r safle heintiedig neu sydd o dan amheuaeth neu ohonynt i safle arall neu ohono (erthygl 9);

(e) yn darparu ar gyfer sefydlu parthau rheoli dros dro (erthygl 10);

(f) yn ei gwneud yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, pan gaiff y clefyd ei gadarnhau, sefydlu ardal o gwmpas y safle lle y cafwyd brigiad o'r clefyd ac yn darparu ar gyfer hollti'r ardal hon yn barth diogelu a pharth goruchwylio (erthygl 11 ac Atodlen 1);

(ff) yn nodi'r gofynion o ran glanhau a diheintio (erthygl 12);

(g) yn nodi'r camau sydd i'w cymryd os y cadarnheir neu yr amheuir bod y clefyd yn bresennol ymhlith moch fferal (erthyglau 13 a 14 ac Atodlen 2);

(ng) yn gwahardd defnyddio'r brechlyn clwy Affricanaidd y moch oni bai fod y Cynulliad Cenedlaethol yn ei awdurdodi (erthygl 15);

(h) yn rhoi'r pŵer i arolygydd i gymryd camau i sicrhau bod gofynion y Gorchymyn hwn yn cael eu bodloni os yw unrhyw berson yn methu â chydymffurfio â'r cyfyngiadau a'r gofynion hynny (erthygl 16);

(i) yn darparu'r manylion ynglŷn â gweithredu rhai o bwerau arolygwyr milfeddygol a swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol a'r Ysgrifennydd Gwladol pan amheuir brigiad o glwy Affricanaidd y moch. Mae'r prif bwerau cyffredinol wedi eu nodi yn adrannau 63 a 64A o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (erthygl 17).

(j) yn darparu ar gyfer gorfodi'r Gorchymyn (erthygl 18).

Mae methiant i gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn yn dramgwydd o dan adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

Mae arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ac wedi'i roi yn Llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copïau oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, Is-adran Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.